

Taith ddymunol?



Alcohol a chludiant cyhoeddus yng Nghymru

Cyflwyniad

Mae camddefnyddio alcohol yng Nghymru yn destun pryder mawr yn gyhoeddus ac yn wleidyddol. Mae yfed yng Nghymru, fel yng ngweddill Prydain, wedi codi'n sylweddol ers y 1960au.¹ Mae 52 y cant o ddyinion Cymru a 38 y cant o fenywod yn dweud eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau,² ac mae'r ffigurau go iawn yn debygol o fod yn uwch fyth, gan fod arolygon yn aml yn tangyfrif faint o alcohol sy'n cael ei yfed.³ Mae canlyniadau hyn i'w gweld mewn amrywiaeth o broblemau iechyd,⁴ a hefyd mewn troseddu ac anhrefn mewn mannau cyhoeddus, gan gynnwys ar gludiant cyhoeddus.⁵ Mae o leiaf un cwmni trenau yng Nghymru wedi dweud bod y rhan fwyaf o'r ymosodiadau ar ei staff yn gysylltiedig ag alcohol.⁶

Polisi ac arfer cyfredol

Arfer cyffredin ar gludiant cyhoeddus ym Mhrydain a llawer gwlad arall yw cadw'r hawl i beidio â chludo teithwyr sydd o dan ddylanwad alcohol, yn enwedig os ydyn nhw hefyd yn afreolus neu'n ymosodol. Ond nid yw hi'n eglur i ba raddau y mae gwaharddiadau o'r fath yn gweithio mewn gwirionedd, gyda'r cyfrifoldeb am eu gweithredu'n aml yn disgyn ar staff cludiant

yn ychwanegol at eu dyletswyddau eraill. Wrth geisio mynd i'r afael â'r gwir resymau dros anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol ar gludiant cyhoeddus, rhoddwyd sylw'n ddiweddari fesurau i reoli'n well cyflenwi alcohol a'i yfed ar drenau a bysiau ac mewn gorsafoedd.

Yng Nghymru mae yfed alcohol ar gludiant cyhoeddus eisoes wedi'i wahardd ar rai achlysuron penodol, ac ar rai gwasanaethau bob amser, er mwyn ceisio lleihau problemau:

- Gwaherddir yfed ar bob trên rhwng Pontypridd a Threherbert, Aberdâr a Merthyr Tudful, a Chaerffili a Rhymni yng nghymoedd de Cymru.⁷
- Nid yw bysiau National Express, sy'n rhedeg gwasanaethau i nifer o drefi Cymru, yn caniatáu i alcohol gael ei yfed ar eu bysiau nac yn eu gorsafoedd bysiau.⁸
- Mae gan Arriva, un o gwmnïau bysiau mwyaf Cymru, bolisi na chaiff teithwyr "yfed unrhyw fath o alcohol neu ddiiod arall na bwyta unrhyw beth a all wneud i siwrne teithwyr eraill fod yn annymunol neu achosi tramgwydd fel arall".⁹ Ond, gall polisiâu fel hyn fod yn broblematic gan eu bod yn dibynnu'n aml ar staff bysiau i'w gweithredu, ac mae lle i ddadlau ynghylch yr hyn sydd mewn gwirionedd yn annymunol neu'n achosi tramgwydd.





Taith ddymunol?

Briff Alcohol Concern Cymru

- O dan Deddf Digwyddiadau Chwaraeon (Rheoli Alcohol) 1985¹⁰ gellir gwahardd alcohol ar drenau arbennig i ddigwyddiadau chwaraeon penodol. Er enghraifft, doedd dim alcohol yn cael ei ganiatáu ar drenau i gêm ail gyfle clwb pêl-droed Caerdydd yn Wembley ym mis Mai 2010.¹¹

Mewn manau eraill ym Mhrydain, rhoddwyd cynnig ar amrywiaeth o ddulliau. Er enghraifft, yn dilyn pryderon am y cysylltiad agos rhwng chwaraeon y gaeaf ac yfed trwm, mae Eurostar wedi cyfyngu ar faint o alcohol y gellir mynd ag ef ar eu trenau sgïo o Lundain, a gall unrhyw beth dros y cyfyngiadau hyn gael ei gipio a'i ddinistrio.¹²

“Rydyn ni o blaid cynnig llwncdestun i'ch taith, ond dydyn ni ddim mor awyddus i gael sesiynau yfed gwyllt ac ymddygiad afreolus yn ein cerbydau. Rydyn ni eisiau sicrhau bod pawb yn gallu mwynhau eu taith mewn llonyddwch. Felly, gyda help rhai arbenigwyr, rydyn ni wedi rhoi ychydig o gyfyngiadau rhesymol yn eu lle.”

Eurostar, 2010¹³

Mae'n debyg mai'r gwaharddiad mwyaf cynhwysfawr ar alcohol a'r un sydd wedi cael y cyhoeddusrwydd mwyaf yw'r un a gyflwynwyd gan Boris Johnson, Maer Llundain, yn 2008. O dan amodau'r gwaharddiad hwn, does dim hawl yfed alcohol na mynd â chynhwysyddion alcohol agored unrhyw bryd ar drenau tanddaear Llundain, tramiau a bysiau yn y ddinas, nac ar Reilffordd Ysgafn y Dociau.¹⁴ (Nid yw'r gwaharddiad yn cadw pobl rhag teithio gyda chynhwysyddion caeëdig o alcohol y maen nhw'n bwriadu eu hyfed yn rhywle arall).

“Rwy'n credu'n gryf y bydd gwahardd yfed alcohol ar gludiant cyhoeddus Llundain yn creu gwell amgylchedd teithio i bob un sy'n byw yn Llundain ac os gallwn ni gael gwared ar ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r hyn sy'n cael ei alw'n fân droseddu, fe fyddwn ni'n gallu mynd i'r afael yn well â throseddu mwy difrifol.”

Boris Johnson, Maer Llundain, 2008¹⁵

Cafodd y gwaharddiad ei gyflwyno yn un o amodau cludo Transport for London (TfL), fel ei fod yn fater sifil rhwng y cwmni a'i deithwyr, yn hytrach nag yn drosedd y gellid arestio person o'i hachos. Y bwriad oedd y byddai'n gweithio trwy i deithwyr yn gydymffurfio'n wirfoddol. Er hynny, os bydd rhywun yn gwrthod cadw at amodau'r gwaharddiad, gellir eu rhwystro rhag teithio a gofyn iddynt adael y trên neu'r orsaf. Does dim cofnod o faint o weithiau y bu'n rhaid i staff TfL ofyn i rywun beidio ag yfed ond mae'r cwmni wedi dweud bod y dystiolaeth hyd yma yn dangos bod mwyafrif helaeth o bobl yn cydymffurfio o'u gwirfodd. Pwysleisiodd TfL nad ydyn nhw'n gofyn i'w staff eu rhoi eu hunain mewn perygl er mwyn symud teithwyr o orsafoedd ac mai'r heddlu sy'n delio ag unrhyw achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol.

Mae'r ystadegau a roddwyd gan TfL yn awgrymu bod:

- 89% o'r teithwyr yn gwybod am y gwaharddiad
- 89% yn ei gefnogi, gyda 64% yn ei gefnogi'n gryf.

Taith ddymunol?

Briff Alcohol Concern Cymru

Y tri rheswm mwyaf cyffredin dros gefnogi'r gwaharddiad yw:

- Mae ymddygiad bygythiol yn llai tebygol (37%)
- Mae'n creu amgylchedd brafiach, mwy dymunol (31%)
- Mae pobl yn teimlo'n saffach yn gyffredinol (16%).¹⁶

Ar yr adeg y cyflwynwyd y gwaharddiad yn Llundain bu peth trafod am bosiblwydd gwahardd alcohol ar bob math o gludiant cyhoeddus.¹⁷ Cododd gwrthwynebiad chwynn i hyn, a ni wnaethpwyd dim rhagor am y peth, er i'r Adran Drafnidiaeth ymgynghori ynghylch gwahardd yfed alcohol ar fysiau cyhoeddus.¹⁸ Gyda newid llywodraeth yn San Steffan ym Mai 2010, ni fu rhagor o symud ar y pwnc hwn yn genedlaethol.

Trafodaeth

Er bod consensws cyffredinol bod camddefnyddio alcohol ar gludiant cyhoeddus wedi dod yn broblem ddifrifol a'i bod yn creu anawsterau i deithwyr a staff, does dim llawer o gytuno ynglŷn ag atebion effeithiol. Fel y nodwyd yn y papur hwn, rhoddwyd cynnig ar ystod o bolisiau mwy neu lai llwyddiannus ar amryw o wasanaethau bysiau a threnau.

Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydain wedi dweud nad ydyn nhw o blaid gwahardd alcohol ar bob trên ar y rhwydwaith rheilffyrdd ac wedi tynnu sylw at y ffaith fod llawer o'r anrhefn sy'n gysylltiedig ag alcohol yn cael ei achosi gan bobl sy'n feddw cyn mynd ar drên.¹⁹ Er hynny, rhoddodd Heddlu Trafnidiaeth Prydain a Heddlu Llundain eu cefnogaeth i'r gwaharddiad ar alcohol ar gludiant cyhoeddus Llundain yn 2008.²⁰

"Mae eich hawl i gael amser da yn dod i ben pan fydd yn effeithio ar gysur a diogelwch pobl eraill. Mae rhywbeth sy'n ymddangos i chi fel partiò diniwed yn gallu codi ofn ar deithwyr eraill. Mae gan bawb hawl i deithio heb gael eu poeni neu eu dychryn."

Canllawiau Heddlu Trafnidiaeth Prydain, 2010²¹

Mynegodd Ffederasiwn yr Heddlu bryderon ynglŷn â sut byddai ei aelodau'n gweithredu gwaharddiad cynhwysfawr ar yfed alcohol ar gludiant cyhoeddus heb adnoddau ychwanegol.²² Felly hefyd, mynegwyd pryderon adeg y gwaharddiad ar drenau tanddaear Llundain y byddai staff trafnidiaeth oedd eisoes yn brysur yn gorfod mynd ag alcohol oddi ar yfwyr anfodlon a allai fod yn ymosodol.²³

"Mae angen dull rhesymol ar draws y diwydiant i fynd i'r afael â thrais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan dynnu pawb i mewn er mwyn ceisio atebion, gan gynnwys yr undebau sy'n cynrychioli'r gweithwyr sy'n gorfod ymdrin â'r sefyllfa yn y pen draw. Cam cyntaf da fyddai cydnabod bod angen rhagor o staff ar orsafoedd a gardiau yn ôl ar bob trên."

Bob Crow, RMT, 2008²⁴

Mae gwrthwynebwyr gwaharddiad llwyr wedi dweud hefyd y byddai'n cosbi pobl sydd am yfed yn rhesymol, yn enwedig ar deithiau hir. Mae'r enghraifft wedi cael ei rhoi o'r rhai sydd eisiau "mwynhau gwydraid o win gyda phryd o fwyd",²⁵ gan wrthgyferbynnu hyn â'r ddelwedd boblogaidd o yfwyr cwrw afreolus, a'r rheini'n ddynion ifanc



Taith ddymunol?

Briff Alcohol Concern Cymru

fel arfer. Mae'r syniad hwn, fodd bynnag, wedi'i seilio ar ragdybiadau am fathau o yfwr yn hytrach na thystiolaeth eglur am ba fath o yfed sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gludiant cyhoeddus.

Dadl arall yn erbyn cyfyngu rhagor ar yfed ar gludiant cyhoeddus yw y gallai wthio rhagor o bobl yn ôl i ddefnyddio'u ceir pan fyddan nhw'n mynd allan i yfed, neu wedi bod yn yfed yn barod. Yn wir, rhoddodd y Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol ar gyfer Lloegr, a gyhoeddwyd yn 2004, bwyslais arbennig ar fanteision trefnu cludiant cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn i bobl allu teithio adref yn ddiogel ar ôl yfed.²⁶

Argymhellion

Os ydym am reoli'n effeithiol camddefnyddio alcohol a'r troseddu a'r anrhefn sy'n gysylltiedig ag ef ar gludiant cyhoeddus, mae angen mynd ati'n fwy strategol. Mae Alcohol Concern yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth Prydain gydweithio ar y mentrau canlynol:

- Dylid casglu gwybodaeth ar effeithiolrwydd y cyfyngiadau sydd ar hyn o bryd ar ddefnyddio alcohol ar gludiant cyhoeddus, ac am unrhyw anawsterau a gododd wrth eu gweithredu.
- Yn benodol, dylid gwneud asesiad o ba mor ymarferol a pha mor ddymunol fyddai gwaharddiad llwyr ar yfed alcohol, a bod â chynhwysyddion agored o alcohol, ar deithiau bysiau a threnau lleol.
- O ran teithiau hirach, dylid ystyried pa mor ymarferol fyddai efelychu model Eurostar o osod terfynau penodol ar faint o alcohol y gall teithwyr ei gario gyda nhw.

- Mae angen ystyried unrhyw gyfyngiadau ychwanegol ar yfed alcohol ar gludiant cyhoeddus yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael i'w gweithredu. Mae angen i hyn gynnwys trafod â gweithredwyr cludiant, heddluoedd lleol a Heddlu Trafnidiaeth Prydain, ac undebau gweithwyr cludiant ynghylch goblygiadau polisiâu newydd i'w staff/haelodau nhw.

References

1. Alcohol Concern (2009) *The price is right: Protecting communities through action on alcohol sales*, Llundain, Alcohol Concern.
2. Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Arolwg iechyd Cymru 2009: Y prif ganlyniadau cychwynnol*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar-lein, ar gael o: <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2010/100525sdr742010en.pdf> [defnyddiwyd 29/06/10].
3. Alcohol Concern (2009) *Off measure: How we underestimate the amount we drink*, Llundain, Alcohol Concern.
4. Alcohol Concern (2010) *Beth yw'r drwg? Effeithiau negyddol camddefnyddio alcohol ar iechyd yng Nghymru*, Llundain, Alcohol Concern.
5. Law, P. (2010) *Revealed: Shocking levels of crime at Wales' railway stations*, South Wales Echo 26 Gorffennaf 2010, ar-lein, ar gael o: <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/2010/07/25/revealed-shocking-levels-of-crime-at-wales-railway-stations-91466-26924917/> [defnyddiwyd 14/09/10].

Taith ddymunol?

Briff Alcohol Concern Cymru



6. Datganiad i'r wasg gan First Great Western (2004) *First Great Western staff given new DNA swab kits to cut assaults*, ar-lein, ar gael o: <http://www.firstgreatwestern.co.uk/NewsItem.aspx?id=256> [defnyddiwyd 14/09/10].
7. op.cit. Law, P. (2010).
8. Gwefan National Express (2010) *National Express general conditions of carriage*, ar-lein, ar gael o: <http://www.nationalexpress.com/coach/ourservice/conditions.aspx> [defnyddiwyd 14/09/10].
9. Gwefan Bysiau Arriva (2010) *Arriva UK Bus conditions of carriage*, ar-lein, ar gael o: <http://www.arrivabus.co.uk/uploadedFiles/Resources/Global/Conditions%20of%20Carriage%20July%202010.pdf> [accessed 14/09/10].
10. Gwefan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus: http://www.opsi.gov.uk/RevisedStatutes/Acts/ukpga/1985/cukpga_19850057_en_1 [defnyddiwyd 10/09/10].
11. Gwefan y BBC (2010) *Warning for Cardiff City fans on train to Wembley final*, ar-lein, ar gael o: <http://www.bbc.co.uk/news/10132146> [defnyddiwyd 14/09/10].
12. Gwefan Eurostar (2010), *Ski train facilities*, ar-lein, ar gael o: http://www.eurostar.com/UK/uk/leisure/destinations/direct_services/ski_train/ski_on_board.jsp [defnyddiwyd 10/09/10].
13. op. cit. Gwefan Eurostar (2010).
14. Datganiad i'r wasg gan Transport for London (2008) *Alcohol ban comes into force on the Tube, trams and buses from this Sunday, 1 June*, ar-lein, ar gael o: <http://www.tfl.gov.uk/corporate/media/newscentre/archive/8423.aspx> [defnyddiwyd 14/09/10].
15. ibid.
16. Gwybodaeth a roddwyd i Alcohol Concern gan Transport for London 30 Medi 2010.
17. Slack, J. (2008) *Labour might bring in the Boris booze ban on all public transport*, Daily Mail 8 May 2008, ar-lein, ar gael o: <http://www.dailymail.co.uk/news/article-1018798/Labour-bring-Boris-booze-ban-public-transport.html> [defnyddiwyd 14/09/10].
18. Yr Adran Drafndiaeth (2009) *Improving bus passenger services through the regulatory framework: Consultation paper*, ar-lein, ar gael o: <http://www.dft.gov.uk/consultations/closed/2010-17/condoc.pdf> [defnyddiwyd 14/09/10].
19. Gwefan Heddlu Trafnidiaeth Prydain (2010) *Alcohol*, ar-lein, ar gael o: http://www.btp.police.uk/passengers/advice_and_information/alcohol.aspx [defnyddiwyd 14/09/10].
20. op. cit. Datganiad i'r wasg gan Transport for London (2008).
21. op. cit. Gwefan Heddlu Trafnidiaeth Prydain (2010).
22. op. cit. Slack, J. (2008).
23. Gwefan BBC (2008) *Johnson bans drink on transport*, ar-lein, ar gael o: <http://news.bbc.co.uk/1/hi/7387113.stm> [defnyddiwyd 14/09/10].

Taith ddymunol?

24. Datganiad i'r wasg gan yr RMT (2008) '*Half-baked*' *Tube booze ban could endanger staff, says RMT*, ar-lein, ar gael o: http://www.rmtbristol.org.uk/2008/05/halfbaked_tube_booze_ban_could.html [defnyddiwyd 14/09/10].
25. op. cit. Slack, J.
26. Swyddfa'r Cabinet: Uned Strategaeth y Prif Weinidog (2004) *Alcohol harm reduction strategy for England*, ar-lein, ar gael o: <http://www.newcastle-staffs.gov.uk/documents/community%20and%20living/community%20safety/caboffice%20alcoholhar%20pdf.pdf> [defnyddiwyd 14/09/10].

Alcohol Concern

Alcohol Concern yw'r asiantaeth genedlaethol ar gamddefnyddio alcohol, gan ymgyrchu dros bolisiau alcohol effeithiol a gwell gwasanaethau i bobl sy'n byw gyda phroblemau'n yn ymwneud ag alcohol. Corff o aelodau ydym ni, yn gweithio'n genedlaethol i ddylanwadu ar bolisi alcohol ac yn lleol i hybu'r ymarfer gorau. Rydym yn cefnogi proffesiynolion a sefydliadau trwy ddarparu arbenigedd, gwybodaeth a chyngor. Rydym yn herio'r diwydiant diodydd ac yn hybu ymwybyddiaeth ynghylch materion alcohol.

Brîff Alcohol Concern Cymru

Cyhoeddwyd gan Alcohol Concern,
ar ran Alcohol Concern Cymru, Sophia House,
28 Cathedral Road, Caerdydd, CF11 9LJ

Ffôn: 029 2066 0248, Ffacs: 029 2066 0249

E-bost: acwales@alcoholconcern.org.uk

Gwefan: www.alcoholconcern.org.uk

Hawlfraint: Alcohol Concern Rhagfyr 2010

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf (gan gynnwys llungopïo neu storio mewn unrhyw gyfrwng electronig), neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ddull heb ganiatâd y cyhoeddwr a pherchenogion yr hawlfraint.

Darparwyd y llun gan iStockphoto.

Mae Alcohol Concern yn elusen gofrestredig rhif 291705 ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yn Llundain rhif 1908221.



Alcohol Concern
Meddwl yn Gall am Alcohol